

PROMs, PREMs and Effectiveness Programme



Canllaw defnyddiwr - er mwyn cyrchu'r porthol PROMs sy'n galluogi cleifion i lenwi holiadur PROMs yn eu cartref

Sut i gyrchu'r wefan:

Y cyfeiriad ar gyfer gwefan PROMs yw: <https://proms.gig.cymru>. Dylid rhoi hwn ym mar cyfeiriad pa bynnag ddyfais rydych chi'n ei defnyddio. Mae'r wefan yn gweithio ar gyfrifiaduron, gliniaduron, tabledi a ffonau symudol.

Pan fyddwch yn derbyn eich llythyr cydnabyddiaeth atgyfeiriad bydd yn cynnwys cyfeiriad gwefan PROMs a rhif cyfeirnod unigryw. Rhowch gyfeiriad y wefan yn y bar cyfeiriad ar eich porwr rhyngrywd. Unwaith y bydd y porthol wedi llwytho bydd y sgrin ganlynol i'w gweld. Dyma dudalen hafan gwefan PROMs.



Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion

English



Nod y rhan fwyaf o ofal iechyd yw gwella iechyd cleifion - a'r cleifion eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i farnu sut y maent yn teimlo.



Dechrau'r holiadur
Dechreuwch eich holiadur gyda'r còd unigryw a gawsoch drwy'r post.



Ynglŷn â'r holiadur hwn
Mwy o wybodaeth ynglŷn â holiaduron Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion.




Cwestiynau Cyffredin

Oddi yma gallwch ddewis mynd yn uniongyrchol i'r holiadur drwy glicio ar y blwch 'Dechrau'r holiadur' neu gallwch gael gwybod mwy am PROMs a'r holiadur drwy glicio'r blwch priodol h.y. 'Ynglŷn â'r holiadur hwn' a 'Cwestiynau Cyffredin'.

Cyrchu'r holiadur:

Pan gaiff y blwch 'Dechrau'r holiadur' ei glacio eir â chi i'r dudalen mewngofnodi lle gofynnir i chi roi'r rhif cyfeirnod unigryw, a nodir yn eich llythyr cydnabyddiaeth atgyfeiriad, yn y blwch 'Rhif Cyfeirnod:' ac i ddilysu eich hun drwy roi eich dyddiad geni yn y blwch 'Dyddiad geni'.

Noder: Mae'r rhif cyfeirnod unigryw yn **sensitif i lythrennau bach a phrif lythrennau** ac felly mae'n bwysig eich bod yn ei roi yn y 'Blwch Cyfeirnod' **yn union** fel y mae wedi ei nodi ar eich llythyr cydnabyddiaeth atgyfeiriad.



Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion

English

Hafan / Cais Unigryw ID

Croeso i'r porth PROMs ar gyfer GIG Cymru

Cam 1: Rhowch eich Rhif Cyfeirnod, Blwyddyn Geni a dewiswch eich iaith.

Rhif Cyfeirnod:

Nodwch mae maint llythrennau'r cyfeirnod yn bwysig. Rhowch ef **yn union** fel y byddwch yn ei weld yn y llythyr

Blwyddyn geni:

Iaith: Saesneg Cymraeg

[Nesaf >](#)

Cydsyniad:

Mae tudalen nesaf yr holiadur yn ymwneud â chydysyniad. Mae 4 cwestiwn i'w hateb yn yr adran hon. Os oes rhywun arall yn eich helpu chi i llenwi'r holiadur, dyma lle gallant ddweud pwy ydynt a pham eu bod yn eich helpu. Mae'n bwysig, fodd bynnag, mai eich atebion chi eich hun yw'r rhai a roddir ac nid rhai'r person sy'n eich helpu.

Mae 2 ateb 'Ydw/Nac Ydw' ar gyfer cydsyniad lle gofynnir i chi gytuno i rannu'r wybodaeth yr ydych chi'n mynd i'w darparu gyda gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gysylltiedig yn eich gofal yn ogystal â chael ei chysylltu i gronfeydd data eraill y GIG.

Mae maes cyfeiriad e-bost hefyd yn yr adran hon. Er nad yw hwn yn orfodol, darparwch gyfeiriad e-bost os oes gennych un gan mai bwriad y rhaglen yw cysylltu â chleifion drwy e-bost. Os nad oes gennych gyfeiriad e-bost, ticiwch y blwch 'Nid oes gennyf gyfeiriad e-bost'.

NHS
WALES
Ffurflen PROMs

Cyflwyniad

A ydych chi'n llenwi'r holiadur hwn ar ran rhywun arall?

Ydw

Nac ydw

Dewiswch un

Diben yr holiadur hwn yw casglu gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau gofal iechyd sy'n cael eu darparu gan y GIG yng Nghymru.

Bydd sefydliadau o fewn GIG Cymru yn casglu gwybodaeth amdanoch chi a chleifion eraill yn rheolaidd er mwyn:

- cynorthwyo gyda rheolaeth eich gofal a'ch triniaeth i wella'r gwasanaethau a ddarperir i chi
- adolygu gwasanaethau presennol a chymnal ymchwil i weld sut y gellir gwella gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau darpariaeth gofal o ansawdd uchel ac ymchwil cadarn, hoffem gysylltu'r wybodaeth a ddarperir gennych chi wrth wybodaeth berthnasol arall a ddelir amdanoch yn eich cofnodion ysbyty a meddyg teulu, gan sefydliadau eraill y GIG ac mewn cronfeydd data cenedlaethol. Caiff eich gwybodaeth bersonol ei thrin yn gwbl gyfrinachol. O bryd i'w gilydd byddwn yn rhannu gwybodaeth ddiennw ynglŷn â'ch gofal gyda sefydliadau allanol. Caiff eich data ei drin yn ddiogel yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Ni chaiff gwybodaeth y gellir ei defnyddio i'ch adnabod (eich gwybodaeth bersonol) fyth ei rhyddhau gan GIG Cymru na chan unrhyw sefydliad trydydd parti sy'n gweithio ar ei ran oni bai y ceir eich caniatâd penodol chi i wneud hynny, neu os yw'n ofynnol i'r Sefydliad GIG wneud hynny yn ôl y gyfraith neu gan y Llysoedd.

* Rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r wybodaeth a ddarperir gennyf gael ei rhannu gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gysylltiedig yn fy ngofal.

Ydw

Na

* Rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r wybodaeth a ddarperir gennyf cael ei chysylltu wrth gronfeydd data eraill y GIG neu ei defnyddio at ddibenion gwella gwasanaeth, cynllunio ac ymchwil.

Ydw

Na

Hoffem gysylltu â chi eto yn y dyfodol drwy e-bost er mwyn mesur eich cynnydd. Drwy roi eich cyfeiriad e-bost rydych yn cydsynio i ni gysylltu â chi yn y dyfodol. Cyngorir chi i beidio â defnyddio cyfeiriad e-bost a rennir / teulu oni bai eich bod yn hapus i bawb sydd â mynediad at y cyfrif hwnnw fod yn ymwybodol o'ch cyflwr meddygol.

Rhowch y cyfeiriad e-bost y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer cysylltu â chi yn y dyfodol

1 of 15

Next


Os bydd rhywun arall yn llenwi'r holiadur hwn bydd cwmples yn ymddangos sy'n gofyn i chi am berthynas y person hwnnw â chi

Er nad yw rhoi cyfeiriad e-bost yn orfodol, mae'n orfodol llenwi'r maes hwn ar yr holiadur. Rhowch gyfeiriad e-bost os oes gennych chi un, ac os nad oes gennych un cliciwch ar y botwm 'Nid oes gennyf gyfeiriad e-bost'.

Mae angen i chi ateb Ydw neu Nac Ydw i'r ddau gwestiwn cydsyniad. Mae'r 2 gwestiwn hyn yn orfodol.

Ateb y cwestiynau:

Mae nifer o'r cwestiynau yn rhai amlddewis sy'n gofyn i chi glicio ar yr ateb o'ch dewis. Unwaith y bydd yr holl gwestiynau ar y dudalen wedi eu hateb gallwch sgrolio i lawr i waelod y dudalen a chlicio ar y botwm 'Nesaf'.

Cymraeg ▾
Ffurflen PROMs

Eich Iechyd Cyffredinol

Cliciwch ar yr UN blwch sy'n disgrifio orau sut mae eich iechyd chi HEDDIW.

Gweithgareddau arferol (e.e. gwaith, astudio, gwaith tŷ, gweithgareddau teuluol neu hamdden)

- Dydw i ddim yn cael anhawster gwneud fy ngweithgareddau arferol
- Rydw i'n cael ychydig o anhawster gwneud fy ngweithgareddau arferol
- Rydw i'n cael anhawster cymedrol gwneud fy ngweithgareddau arferol
- Rydw i'n cael anhawster difrifol gwneud fy ngweithgareddau arferol
- Dydw i ddim yn gallu gwneud fy ngweithgareddau arferol

Hawlfraint © EuroQol Research Foundation. Mae EQ-5D™ yn nod masnach EuroQol Research Foundation.

4 of 15

Prev

Next

Cliciwch yr ateb ac yna cliciwch "Nesaf"

Ateb y cwestiynau: (parhad)

Mae nifer o'r cwestiynau'n defnyddio graddfa lithro. Cliciwch ar y botwm yng nghanol y raddfa a symudwch ef naill ai i fyny neu i lawr neu i'r chwith neu i'r dde, yn dibynnu ar gyfeiriadedd y raddfa, i'r rhif perthnasol.




Eich Iechyd Cyffredinol

Eich iechyd chi heddiw

Hoffem gael gwybod pa mor dda neu wael yw eich iechyd chi HEDDIW.

- Mae'r raddfa hon wedi ei rhifo o 0 i 100.
- Mae 100 yn golygu'r iechyd **gorau** y gallwch ei ddychmygu.
- Mae 0 yn golygu'r iechyd **gwaethaf** y gallwch ei ddychmygu.
- Cliciwch ar y raddfa i ddangos sut mae eich iechyd chi HEDDIW.

Yr iechyd gorau y gallwch ei ddychmygu



Yr iechyd gwaethaf y gallwch ei ddychmygu


Hawlfraint © EuroQol Research Foundation. Mae EQ-5D™ yn nod masnach EuroQol Research Foundation.

Cliciwch ar y botwm yng nghanol y raddfa a llithrwch ef i fyny neu i lawr, i'r chwith neu i'r dde



Ateb y cwestiynau: (parhad)

Ceir hefyd gwestiynau sy'n gofyn am ateb rhifiadol e.e. 'Ym mha flwyddyn gawsoch chi eich geni?' neu 'Beth yw eich pwysau?'. Mae'r cwestiynau hyn yn gofyn i chi roi ateb rhifiadol yn y blwch a ddarperir.

Cymraeg ▾

Ffurflen PROMs

Amdanoch Chi

Mae'r adran hon yn gadael i ni ddeall eich amgylchiadau personol a'r ffactorau pwysig a allai effeithio ar eich iechyd a'ch canlyniadau. Atebwch hi mor gywir ag y gallwch.

Ym mha flwyddyn gawsoch chi eich geni?

Rhowch eich blwyddyn geni, ee 1940

Pa ddatganiad sy'n disgrifio eich trefniadau byw orau?

- Rydw i'n byw gyda phartner/priod/teulu/ffrindiau
- Rydw i'n byw ar fy mhen fy hun
- Rydw i'n byw mewn cartref nyrsio, ysbyty neu gartref gofal hirdymor arall
- Arall

Mae'r adran hon yn gadael i ni ddeall eich amgylchiadau personol a'r ffactorau pwysig a allai effeithio ar eich iechyd a'ch canlyniadau. Atebwch hi mor gywir ag y gallwch.

Beth yw eich pwysau?

<input type="text"/>	st	<input type="text"/>	lb
----------------------	----	----------------------	----

NEU

<input type="text"/>	kg
----------------------	----

Beth yw eich taldra?

<input type="text"/>	ft	<input type="text"/>	in
----------------------	----	----------------------	----

NEU

<input type="text"/>	cm
----------------------	----


Beth yw maint eich gwasg?

<input type="text"/>	in
----------------------	----

NEU

<input type="text"/>	cm
----------------------	----


Rhowch ateb rhifiadol yn y blwch a ddarperir



6 | Page

Cyflwyno eich holiadur:

Unwaith eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau gofynnir i chi glicio'r botwm 'Cyflwyno'. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hapus gyda'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei rhoi cyn clicio "cyflwyno". Noder: ni fyddwch yn gallu diweddarau unrhyw atebion unwaith eich bod wedi cyflwyno'r holiadur.



The screenshot shows a web interface for submitting a form. At the top left is the NHS Wales logo with the text 'GIG Cymru NHS WALES'. Below it, the text 'Ffurflen Orthopedeg Pen-glin' is visible. On the top right, there is a language dropdown menu set to 'Cymraeg'. The main heading is 'Cyflwyno Holiadur'. Below the heading, there are three lines of text: 'Drwy gyflwyno'r holiadur hwn rydych yn cadarnhau eich bod yn fodlon gyda'r wybodaeth yr ydych wedi ei darparu.', 'Noder, ni fyddwch yn gallu diweddarau unrhyw ateb unwaith eich bod wedi cyflwyno'r holiadur.', and 'I gyflwyno'r holiadur cliciwch cyflwyno.'. At the bottom of the form area, there is a progress indicator '24 o 24' and two buttons: 'Blaenorol' and 'Cyflwyno'.